Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol
Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

5 Hydref 2020

Annwyl bawb,

**Torri'r rheol 21 diwrnod a Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Yn ein cyfarfod ar 28 Medi 2020 gwnaethom drafod **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020**, **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020**, **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020** a **Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**.

Roedd ein hadroddiadau dilynol yn nodi bod yr offerynnau wedi'u gosod **gan dorri'r rheol 21 diwrnod,** a'r rhesymau dros wneud hynny, fel y'u nodwyd yn llythyrau'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd.

Rydym wedi cydnabod y gallai'r angen i ymateb i bandemig COVID-19 fod yn rheswm dilys dros dorri'r rheol 21 diwrnod. Fodd bynnag, mae gennym amheuon ynghylch a oedd yn angenrheidiol torri'r rheol honno ar gyfer Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020. Rydym o'r farn, o ystyried nad yw'r cyd-destun ar gyfer y darpariaethau yn y Rheoliadau wedi newid rhyw lawer yn ystod y misoedd diwethaf, y gallai wedi bod yn bosibl rhagweld yr angen amdanynt ac yn unol â hynny, y dylai wedi bod yn bosibl caniatáu i 21 diwrnod fynd heibio cyn iddynt ddod i rym. Felly, byddem yn croesawu eglurhad pellach ynghylch pam yr ydych o'r farn yr oedd angen torri'r rheol 21 diwrnod y tro hwn.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig oherwydd arwyddocâd y Rheoliadau hyn mewn perthynas â materion cynllunio.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English